

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Bwlch Cyfoeth Wealth Gap

Q10 Eleanor Burnham: What is the Assembly Government doing to reduce the wealth gap between the richest and poorest communities in Wales? OAQ1147(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): The recent Joseph Rowntree Foundation report on poverty and social exclusion suggested that, whereas child poverty in Wales was much worse than the UK average, that adverse differential has been completely removed. At the same time, the proportion of pensioners living in low-income households has reduced from 25 to 20 per cent.

C10 Eleanor Burnham: Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i leihau'r bwlch cyfoeth rhwng y cymunedau cyfoethocaf a thlotaf yng Nghymru? OAQ1147(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Joseph Rowntree Foundation ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yn awgrymu bod tlodi ymysg plant yn arfer bod yn llawer gwaeth yng Nghymru na chyfartaledd y DU, ond bod y gwahaniaeth rhwng Cymru a gweddill y DU wedi diflannu'n llwyr erbyn hyn. Ar yr un pryd, mae cyfran y pensïynwyr sy'n byw ar aelwydydd ag incwm isel wedi gostwng o 25 i 20 y cant.

Arian Amcan 1 Objective 1 Funding

Q11 Jeff Cuthbert: What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the future of Objective 1 funding? OAQ1144(FM)

The First Minister: The future Objective 1 programme, to be known as the convergence programme, and covering west Wales and the Valleys, will commence on 1 January 2007. The content of the convergence programme will be discussed at future meetings with UK Ministers and the European Commission.

C11 Jeff Cuthbert: Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â dyfodol arian Amcan 1? OAQ1144(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd y rhaglen Amcan 1 newydd, sef y rhaglen cydgyfeirio, a fydd yn cael ei rhoi ar waith yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn dechrau ar 1 Ionawr 2007. Bydd cynnwys y rhaglen cydgyfeirio yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd gyda Gweinidogion y DU, a'r Comisiwn Ewropeaidd yn y dyfodol.

Blaenoriaethau Llywodraeth Cynlliad Cymru Welsh Assembly Government Priorities

Q12 Peter Black: Will the First Minister

C12 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog

make a statement on the Welsh Assembly Government's key priorities for the next 16 months? OAQ1145(FM)

ddatganiad am brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr 16 mis nesaf? OAQ1145(FM)

The First Minister: The Government's objectives for the full Assembly term have been set out in 'Wales: A Better Country'. Priorities for progress include access to free school breakfasts, the mergers process, continuing to reduce the NHS waiting list and implementing the Government of Wales Bill.

Y Prif Weinidog: Mae amcanion y Llywodraeth ar gyfer tymor llawn y Cynulliad wedi eu nodi yn 'Cymru: Gwlad Well'. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys mynediad i frecwast am ddim mewn ysgolion, y broses o uno'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad â'r Llywodraeth, parhau i leihau rhestrau aros y GIG a rhoi Mesur Llywodraeth Cymru ar waith.

Cyfrifoldebau Byrddau Iechyd Lleol Responsibilities of Local Health Boards

C13 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfrifoldebau byrddau iechyd lleol? OAQ1161(FM) [W]

Q13 Rhodri Glyn Thomas: Will the First Minister make a statement on the responsibilities of local health boards? OAQ1161(FM) [W]

Y Prif Weinidog: Mae'r byrddau iechyd lleol yn gyrrff statudol. Y byrddau sy'n penderfynu pa wasnaethau sydd eu hangen ar eu cymunedau lleol, a hwy hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys iechyd teuluol, iechyd cymunedol a gwasanaethau ysbyty, er bod y gwasanaethau sy'n rhy arbenigol i ddelio â hwy'n lleol yn parhau i gael eu trefnu ar lefel Cymru gyfan.

The First Minister: The LHBs are statutory bodies. They decide what services are needed for their local communities and ensure that these are provided. These include family health, community health and hospital services, though services that are too specialised to be dealt with locally continue to be organised on an all Wales basis.

Gwasanaeth Trên rhwng Glyn Ebwy a Chaerdydd Rail Service between Ebbw Vale and Cardiff

Q14 Peter Law: What discussions has the First Minister had with Network Rail with regard to the reopening of the passenger rail service between Ebbw Vale and Cardiff? OAQ1143(FM)

C14 Peter Law: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Network Rail gyda golwg ar ailagor y gwasanaeth trê'n i deithwyr rhwng Glyn Ebwy a Chaerdydd? OAQ1143(FM)

The First Minister: Network Rail is a key stakeholder in the regular meetings to progress the Ebbw valley railway project, where it has a key asset-protection role, and Andrew Davies and I are kept fully informed.

Y Prif Weinidog: Mae Network Rail yn un o'r rhanddeiliaid allweddol yn y cyfarfodydd a gynhelir yn rheolaidd i sicrhau bod prosiect rheilffordd Glyn Ebwy yn symud ymlaen. Prif rôl Network Rail yw gwarchod asedau. Yr wyf i ac Andrew Davies yn derbyn adroddiadau llawn ar y cynnydd a wnaed.

Tlodi Poverty

Q15 Denise Idris Jones: What action has the Welsh Assembly Government taken to tackle

C15 Denise Idris Jones: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu

circumstances of poverty across Wales?
OAQ1156(FM)

cymryd i fynd i'r afael ag amgylchiadau tlodi
ar draws Cymru? OAQ1156(FM)

The First Minister: Our social justice annual report 2005 sets out how we are improving access to jobs, skills, training, healthcare, housing, the safety of people in our communities and the regeneration of our communities in all parts of Wales.

Y Prif Weinidog: Mae ein hadroddiad blynyddol ar gyfiawnder cymdeithasol ar gyfer 2005 yn nodi sut yr ydym yn gwella mynediad i swyddi, sgiliau, hyfforddiant, gofal iechyd, tai, diogelwch pobl yn ein cymunedau ac adfywio ein cymunedau ym mhob rhan o Gymru.